Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel


Adroddiad i Ofal Cymdeithasol Cymru
ysgrifennwyd gan
CASCADE, Prifysgol Caerdydd


**Fersiwn gryno**


Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Adroddiad i Ofal Cymdeithasol Cymru gan

Annie Williams, Hannah Bayfield, Martin Elliott, Jennifer Lyttleton-Smith, Rhiannon Evans, Honor Young, Sara Long

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 30 33 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

© Gofal Cymdeithasol Cymru 2019

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylid anfon ymholiadau atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

**Fformatau eraill:**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

# Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel

Comisiynwyd prosiect gan Ofal Cymdeithasol Cymru i ymchwilio profiadau plant a phobl ifanc o Gymru a dderbyniodd Orchmynion Llety Diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018.

## Cyflwyniad

Gall pobl ifanc 10 i 17 oed o Gymru a Lloegr gael eu lleoli mewn amryw o leoliadau llety diogel ledled y DU. Er y gall pobl ifanc gael mynediad i lety diogel trwy'r system cyfiawnder troseddol neu oherwydd gorchymyn llys am resymau lles, dim ond am brofiadau plant a phobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel am resymau lles y mae'r adroddiad hwn yn sôn.

Mae bywydau llawer o bobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel wedi'u nodweddu gan:

- esgeulustod
- camdriniaeth
- camweithredu teuluol
- ymlyniadau ansicr
- profedigaeth
- anawsterau perthynas.

Mae'r rhan fwyaf o'u teuluoedd wedi bod yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ers amser maith ac, er bod y plant a'r bobl ifanc eisoes mewn gofal pan ystyrir llety diogel, roedd llawer wedi aros gyda theuluoedd am flynyddoedd lawer a mynd i mewn i ofal ar oedran cymharol hwyr.

Pan oeddent yng ngofal awdurdod lleol, roedd y plant a phobl ifanc a atgyfeiriwyd i lety diogel yn y pen draw yn tueddu i wynebu problemau emosiynol, problemau cymheiriaid, problemau ymddygiad a gorfywiogrwydd. Mae'r cymhlethdodau yma'n aml yn tarfu ar leoliadau, gan arwain at symudiadau niferus. Mae'r amser cyn gofal diogel yn cael ei nodweddu gan gynnydd mewn ymddygiadau risg uchel neu wrthgymdeithasol.

Yr hyd arhosiad cyfartalog i blant a phobl ifanc a leolir mewn llety diogel am resymau lles yw rhwng pedwar a phum mis. Yn ystod yr amser hwn, mae'r plant a phobl ifanc yn cael mynediad at amryw o wasanaethau ychwanegol, gydag addysg a chymorth iechyd meddwl yn arbennig o bwysig. Yn ystod eu cyfnod mewn llety diogel, mae rhai plant a phobl ifanc yn gwneud yn dda, ond eraill ddim cystal.

Yn y tymor byr, mae llety diogel yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, yn ennyn eu brwdfrydedd, yn darparu sefydlogrwydd iddyn nhw ac yn nodi rhai o achosion ymddygiad risg uchel. Mae canlyniadau tymor hwy yn fwy cymysg - nid yw cynnydd bob amser yn cael ei gynnal ar ôl cyfnod cychwynnol mwy tawel, ac mae'n gyffredin fod rhywfaint o ddirywiad yn dilyn, er nad yw hyn yn digwydd bob amser.

## Dulliau

Roedd y prosiect yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant a phobl ifanc o Gymru cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod mewn llety diogel neu amgen. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- hanesion bywyd plant a phobl ifanc
- pa mor dda oedd anghenion ac ymddygiadau plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u dylanwadu gan natur a model therapiwtig y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd
- sut roedd penderfyniadau a chynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc yn dilyn eu hamser mewn llety diogel
- canlyniadau a sefydlogrwydd lleoliadau pobl ifanc ar ôl gadael llety diogel
- llesiant emosiynol a chorfforol pobl ifanc ar ôl gadael llety diogel
- beth ddigwyddodd pan wnaed Gorchmynion Llety Diogel ond bod llety amgen wedi'i ddarparu gan nad oedd gwely ar gael yn y llety diogel.

I gael yr wybodaeth hon, nodwyd ac archwiliwyd y data awdurdod lleol perthnasol, a chynhaliwyd cyfweliadau gyda:

- 11 o blant a phobl ifanc a oedd wedi defnyddio llety diogel yn ystod amserlen y prosiect
- 30 o weithwyr cymdeithasol
- 12 o weithwyr proffesiynol arall ynghlwm â'u hachosion
- gofalwr maeth
- aelod o'r teulu.

## Canfyddiadau allweddol

### Defnydd plant a phobl ifanc o Gymru o lety diogel

- Yn ystod amserlen y prosiect, gwnaeth 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gais am Orchymyn Llety Diogel
- Cafodd 56 o Orchmynion Llety Diogel eu rhoi, yn ymwneud â 43 o wahanol blant a phobl ifanc
- Arweiniodd mwy na hanner y gorchmynion at blant a phobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety diogel y tu allan i Gymru
- Cafodd llai na chwarter y bobl ifanc eu lleoli mewn llety diogel sydd ond ar gyfer pobl ifanc a leolir am resymau lles
- Roedd merched a bechgyn yr un mor debygol â'i gilydd o gael eu lleoli mewn llety diogel am resymau lles.

### Profiadau plant a phobl ifanc cyn atgyfeiriad i lety diogel

- Roedd gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc brofiad o fyw mewn teuluoedd anhrefnus sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth a/neu esgeulustod
- Er bod llawer o deuluoedd o'r fath wedi bod yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ar ryw adeg, ychydig iawn oedd wedi derbyn ymyriadau cyson a dargedir
- Roedd pob plentyn a pherson ifanc wedi bod mewn gofal, gyda llawer yn cael mynediad at ofal yn gymharol hwyr a rhai yn symud ymlaen i lety diogel o fewn ychydig fisoedd i gael mynediad at ofal
- Profodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc symudiadau aml a threfnwyd llety diogel ar eu cyfer yn sydyn iawn
- Roedd symud yn aml ac anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau newydd yn peri pryder i'r plant a'r bobl ifanc ac yn effeithio'n fawr ar adnoddau gwasanaethau cymdeithasol

- Mae ffactorau risg allweddol cyn Gorchmynion Llety Diogel yn cynnwys cymysgedd o ddianc, camddefnyddio sylweddau, paratoi i bwrpas rhyw, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a hunan-niwed

- Er bod problemau iechyd meddwl, hunan-niwed a cheisio cyflawni hunanladdiad yn gyffredin ymhlith plant a phobl ifanc cyn atgyfeirio i lety diogel, ychydig iawn a dderbyniodd gymorth gan wasanaethau iechyd meddwl.

### Profiadau plant a phobl ifanc o fynd i mewn i lety diogel

- Er bod yr her o gadw pob plentyn a pherson ifanc yn rhan o'r broses o gael Gorchmynion Llety Diogel yn amlwg, nid oedd barn pob un o'r plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried

- Roedd y prinder gwelyau mewn llety diogel yn achosi ansicrwydd a phryder i blant a phobl ifanc ac yn cynyddu llwyth gwaith gwasanaethau cymdeithasol

- Weithiau, mae diffyg llety diogel yn arwain at awdurdodau lleol yn creu llety amgen i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau anghofrestredig

- Nid oedd pob dull trafnidiaeth ddiogel presennol i ac o leoliadau llety diogel  yn sicrhau taith dderbyniol ddiogel i blant a phobl ifanc.

### Bywyd mewn llety diogel

- Mae profiadau gwael wrth gyrraedd llety diogel yn gallu cael effaith negyddol ar agwedd plant a phobl ifanc at weddill eu hamser yn y lleoliad

- Mae llety diogel yn gallu darparu amgylchedd cyson a reoleiddir lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn ymgysylltu â gwasanaethau roeddent wedi bod yn absennol ohonynt yn y gorffennol, yn enwedig addysg

- Mae plant a phobl ifanc a leolwyd mewn llety diogel am resymau lles yn aml yn teimlo bod natur warchodol rhai lleoliadau llety diogel yn amhriodol. Maen nhw hefyd yn teimlo'i bod yn anaddas i fyw gyda phlant a phobl ifanc a leolwyd trwy'r system cyfiawnder troseddol

- Mae llety diogel yn tueddu i ganolbwyntio ar gyfyngu ar ryddid plant a phobl ifanc, yn hytrach na darparu'r help arbenigol angenrheidiol

- Yn aml, nid yw Gorchmynion Llety Diogel yn rhoi digon o amser ar gyfer ymyrraeth therapiwtig neu i osod y seiliau ar gyfer taflwybrau cadarnhaol

- Mae angen opsiynau triniaeth therapiwtig ehangach sy'n canolbwyntio ar broblemau ymddygiadol, emosiynol a seicolegol

- Nid yw'r amser a ddarperir mewn llety diogel yn cydnabod nac yn mynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi ymddygiad problemus, ond yn hytrach, mae'n cyfyngu ar eu rhyddid ac yn lleihau risg dros dro.

### Gadael llety diogel

- Cydnabu gweithwyr cymdeithasol bwysigrwydd cynllunio'r pontio o lety diogel yn ofalus

- Pan fo hyd Gorchymyn Llety Diogel yn ansicr, gall cynllunio i adael llety diogel fod yn her

- Wrth adael llety diogel, mae hanesion ac anghenion plant a phobl ifanc sy'n gadael llety diogel yn gallu ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i leoliadau, yn gallu achosi oedi o ran gadael llety diogel ac arwain at gais am orchymyn amddifadu o ryddid yn y lleoliad newydd

- Mae pontio gofalus o lety diogel gyda chysylltiad rheolaidd rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'r lleoliad newydd yn gwneud y broses yn haws

- Roedd oddeutu 38 y cant o'r plant a phobl ifanc ynghlwm â'r prosiect wedi cael profiadau cadarnhaol yn eu cartref cyntaf ar ôl llety diogel. Roedd canran debyg wedi cael profiadau gwael a 25 y cant  wedi cael profiadau cymysg

- Roedd y rhai â phrofiadau da yn tueddu i fod wedi profi pontio a gynlluniwyd yn ofalus i leoliadau cyson a oedd yn cydnabod ac ateb eu hanghenion.

## Profiadau a chanlyniadau tymor hir

- Parhaodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i ddilyn y taflwybrau cadarnhaol, negyddol neu gymysg a gychwynnodd pan adawon nhw lety diogel

- Yn y tymor hwy, ni lwyddodd y rhan fwyaf o leoliadau ar ôl llety diogel i ddiwallu anghenion pobl ifanc

- Rhwng gadael llety diogel a chyfnod yr astudiaeth yma, roedd mwy na chwarter y bobl ifanc yn destun Gorchmynion Llety Diogel ychwanegol. Aeth plant a phobl ifanc eraill i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, ac eraill i leoliad seiciatrig diogel

- Roedd yn ymddangos bod y rhai sy'n profi canlyniadau cadarnhaol yn gwneud hynny oherwydd ansawdd y lleoliadau. Roedd cysylltiadau cyson ag oedolion allweddol, a chymorth iechyd meddwl digonol, yn hanfodol.

## Trafodaeth: Beth yw'r problemau?

Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yr astudiaeth yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ar ryw adeg cyn derbyn gofal, mae diffyg darpariaeth ymyriad cyson a dargedir yn codi cwestiynau ynghylch polisi ac arfer ymyriad cynnar. Mae hyn yn cynnwys rôl addysg, iechyd a'r trydydd sector, o ran nodi'r angen am gymorth pellach.

Pan ddaeth y grŵp bychan a bregus yma o blant a phobl ifanc i mewn i'r system ofal, roedd eu lleoliadau yn methu darparu'r gofal a chymorth angenrheidiol, a phrofodd lawer ohonynt symudiadau niferus cyn cyrraedd llety diogel. I lawer o blant a phobl ifanc, ailadroddwyd y patrwm yma ar ôl gadael llety diogel. Yng nghyd-destun canlyniadau'r plant a phobl ifanc, mae hwn yn faes pwysig i fynd i'r afael ag ef gan y cydnabyddir bod ansefydlogrwydd lleoliadau yn gysylltiedig â llai o gyfle i ddatblygu ymlyniadau sicr, cynnydd mewn problemau emosiynol ac ymddygiadol, mwy o leoliadau yn methu a theimladau o wrthodiad.

Mae preswylfeydd sy'n cynnig gofal i blant sydd ei angen yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys sefydliadau statudol, preifat a thrydydd sector, ac mae hynny'n galluogi grymoedd y farchnad i gyfrannu at anawsterau gyda lleoliadau. Mae rhai cartrefi yn gwrthod derbyn plant a phobl ifanc â hanesion gwael iawn. Mae hyn, a'r angen i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli gydag eraill sy'n debygol o waethygu ymddygiadau, yn cymhlethu'r mater hwn ymhellach.

Ymatebodd rhai awdurdodau trwy greu lleoliadau 'pwrpasol' nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Er bod hyn yn groes i gyfraith gofal preswyl, arweiniodd llawer o'r lleoliadau yma at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc, a dylem ystyried y posibilrwydd fod lleoliadau o'r fath yn effeithiol, gan iddynt gael eu creu o gwmpas cefnogi'r plant a phobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau personol mewn ffordd nad yw'r bosibl mewn mannau eraill.

Roedd straeon anodd y plant a'r bobl ifanc yn gymysg ag adroddiadau o gyfraniad proffesiynol, gyda rôl hanfodol gweithwyr cymdeithasol yn amlwg. Roedd amser a chostau cysylltiedig a dreuliwyd gan weithwyr cymdeithasol yn dod o hyd i leoliadau ac ymweld â phlant a phobl ifanc ymhell oddi cartref yn amlwg, ynghyd â'r effaith ar wasanaethau eraill, yn enwedig y gwasanaeth iechyd, yr heddlu a'r llysoedd.

Mater o bryder oedd effaith y broses o gael a gweithredu Gorchymyn Llety Diogel ar blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, roedd cysylltiad rhwng profiadau negyddol ag amgylchiadau proses ceisio am Orchmynion Llety Diogel, cludiant i leoliadau diogel, a natur ac awyrgylch warchodol rhai lleoliadau llety diogel.

Mae profiadau'r plant a phobl ifanc a brofodd y canlyniadau gorau ar ôl cael eu lleoli mewn llety diogel yn atgyfnerthu galwadau'r astudiaeth hon am:

- bontio gofalus rhwng llety diogel a lleoliadau addas
- talu sylw i berthnasoedd sy'n ffurfio rhwng plant a phobl ifanc a staff preswyl
- cydnabod yr angen i ddarparu ymyriadau a gweithgareddau y gellir eu haddasu'n gyson i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r astudiaeth hefyd yn cefnogi canfyddiadau ehangach sy'n dangos bod canlyniadau da ar gyfer plant a phobl ifanc a dderbyniwyd i lety diogel yn cael eu priodoli i leoliadau cyson priodol ac addysg ar ôl gadael llety diogel, yn hytrach na'r hyn a ddigwyddodd yn ystod eu hamser mewn llety diogel.

Mae anallu gwasanaethau iechyd meddwl presennol i ddiwallu anghenion emosiynol ac ymddygiadol y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc cyn ac ar ôl llety diogel yn awgrymu angen am gefnogaeth iechyd meddwl sy'n gallu diwallu anghenion emosiynol, ymddygiadol a seicolegol y plant a'r bobl ifanc. Ynghlwm â hyn mae'r canfyddiad fod gan lawer o weithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth ddofn o gyflwr emosiynol, ymddygiadol a seicolegol plentyn neu berson ifanc, sy'n awgrymu y bydd cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn y broses o gydnabod anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a sicrhau bod cefnogaeth iechyd meddwl digonol yn cael ei ddarparu, yn debygol o gael effaith gadarnhaol.

## Argymhellion: Beth y gellir ei wneud?

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosiect a'r drafodaeth uchod, rydym yn argymell:

- datblygu a defnyddio strategaeth gomisiynu genedlaethol sy'n sicrhau y gall awdurdodau lleol ddiwallu anghenion cynyddol y plant a'r bobl ifanc hyn ar unrhyw adeg. Dylai unrhyw strategaeth gael ei hategu gan ddatblygiad rhanbarthol angenrheidiol i alluogi hwyluso

- dylai lleoliadau gofal ddefnyddio model therapi sydd fwyaf tebygol o ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn ar draws gofal maeth neu breswyl

- dylai gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl sy'n gofalu am bobl ifanc â lefelau uchel o angen cyn ac ar ôl llety diogel dderbyn rhagor o hyfforddiant. Dylai'r hyfforddiant yma sicrhau cysondeb yn y gofal a ddarperir ac y gall y gofal gael ei addasu i ddiwallu anghenion penodol pob plentyn a pherson ifanc

- darparu cymorth hygyrch ar gyfer gofalwyr yn ystod lleoliadau

- gan nad yw llawer o bobl ifanc yn derbyn cymorth iechyd meddwl digonol a/neu briodol cyn, yn ystod neu ar ôl llety diogel, mae angen lefel ychwanegol o wasanaeth. Mae angen i'r gwasanaeth yma allu goresgyn rhwystrau a grëir gan feini prawf cyfredol gwasanaeth iechyd meddwl (er enghraifft, diagnosis iechyd meddwl, ymgysylltu â'r gwasanaeth yn syth, byw mewn amgylchedd diogel), a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth a thriniaeth am broblemau ymddygiadol ac emosiynol, ynghyd â salwch meddwl penodol

- mae gwybodaeth gweithwyr cymdeithasol am hanes ac anghenion y plant a'r bobl ifanc yn awgrymu y dylid defnyddio dull cydgomisiynu amlddisgyblaethol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl. Byddai dull o'r fath yn hwyluso proses atgyfeirio fwy gwybodus ac yn helpu i ddatblygu model gwasanaeth sy'n gallu diwallu anghenion therapi trawma plant a phobl ifanc yn well

- sbardun cenedlaethol i uno arfer gorau o ran gwneud cais am Orchmynion Llety Diogel i helpu plant a phobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol i gael eu cefnogi yn ystod y broses hon. Ble mae hynny'n bosibl ac yn ddiogel, dylai plant a phobl ifanc fod yn ymwybodol o geisiadau am Orchmynion Llety Diogel, yn cael cyfle i fynd i achosion a bod eu barn yn cael ei hystyried gyda help eiriolaeth os dymunir neu os oes angen

- diwygio'r system i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol addysg, gwasanaethau iechyd a therapi a ddarperir mewn llety diogel yn cael eu cynnal trwy ddarparu cymorth a therapi cyffelyb ar ôl i'r bobl ifanc adael. I hwyluso pontio di-dor i'r gofal gorau posibl ar ôl gadael llety diogel, datblygu dull cydgomisiynu amlasiantaethol integredig cenedlaethol a fydd yn cynllunio'r pontio o lety diogel

- nid yw llawer o blant a phobl ifanc a leolwyd am resymau lles yn hoffi amgylchedd llym llawer o leoliadau llety diogel, ac maen nhw'n teimlo ei fod yn amhriodol. Yng ngoleuni canfyddiadau ychwanegol bod rhai lleoliadau llety diogel yn cynnig amgylcheddau mwy cartrefol, rydym yn galw am gydweithredu â phobl ifanc i wella ymddangosiad a theimlad y lleoliadau y cânt eu lleoli ynddynt cyn belled ag y bo hynny'n bosibl

- mae cael eu lleoli ymhell o'u cartref yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, eu teuluoedd ac awdurdodau lleol gan ei fod yn gwneud cysylltiad rheolaidd yn anodd ac yn ddrud. Dylai pob ymdrech gael ei wneud i leoli pobl ifanc mor agos â phosibl at eu cartrefi.